

ERTHYGLAU CYMDEITHASU

Y RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

CYNNWYS

CYMAL

1.	Dehongliad.....	1
2.	Amcan	4
3.	Pwerau	4
4.	Incwm	5
5.	Dirwyn i ben	5
6.	Gwarant.....	6
7.	Penderfyniadau unfrydol.....	6
8.	Galw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr	6
9.	Cworwm ar gyfer cyfarfod o'r cyfarwyddwyr	7
10.	Pleidlais bwrw.....	7
11.	Gwrthdaro buddiannau cyfarwyddwyr	7
12.	Cofnodion o benderfyniadau i'w cadw	9
13.	Nifer y cyfarwyddwyr	9
14.	Marwolaeth neu fethdaliad cyfarwyddwr sy'n unig aelod.....	10
15.	Penodi a diswyddo dirprwy gyfarwyddwyr	10
16.	Hawliau a chyfrifoldebau dirprwy gyfarwyddwyr	10
17.	Terfynu swydd dirprwy gyfarwyddwr	11
18.	Ysgrifennydd.....	12
19.	Newid enw cwmni	12
20.	Aelodaeth	12
21.	Trosglwyddo aelodaeth.....	12
22.	Diarddel aelod	13
23.	Pleidleisiau aelodau	13
24.	Pleidleisio pŵl	14
25.	Dirprwyon	14
26.	Dulliau cyfathrebu i'w defnyddio	14
27.	Rheolau	15
28.	Indemniad ac yswiriant	15

DEDDF CWMNIAU 2006

CWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG DRWY WARANT

ERTHYGLAU CYMDEITHASU

Y RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN (y "Cwmni")

Ffurfiwyd ar

2016

DEHONGLIAD, AMCANION A CHYFYNGIAD AR ATEBOLRWYDD

1. DEHONGLIAD

1.1 Yn yr Erthyglau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Aelod: mae'n golygu'r sawl y mae ei enw wedi'i nodi yng Nghofrestr Aelodau'r Cwmni a bydd **Aelodaeth** yn cael ei dehongli yn unol â hynny;

cyfarwyddwr: mae'n golygu cyfarwyddwr y Cwmni ac mae'n cynnwys unrhyw unigolyn sy'n ymgymryd â'r swydd cyfarwyddwr, beth bynnag y'i gelwir;

Cyfarwyddwr â Budd: mae iddo'r ystyr a roddir yn *erthygl 11.1*;

Cyfarwyddwr Cymwys: mae'n golygu cyfarwyddwr y byddai hawl ganddo/ganddi bleidleisio ar y mater yng nghyfarfod y cyfarwyddwyr (ac eithrio mater yn ymwneud ag awdurdodi Gwrthdaro yn unol ag Erthygl 11, unrhyw gyfarwyddwr na chyfrifir ei bleidlais mewn perthynas â mater arbennig);

cymryd rhan: mewn perthynas â chyfarfod cyfarwyddwr mae iddo'r ystyr a roddir yn Erthygl Enghreifftiol 10;

Deddf: ystyr Deddf yw Deddf Cwmnïau 2006;

Diwrnod Busnes: mae'n golygu unrhyw ddiwrnod (heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yn Lloegr) pan fydd banciau yn Llundain yn agored ar gyfer busnes;

dogfen: mae'n cynnwys, oni bai y nodir fel arall, unrhyw ddogfen a anfonir neu a gyflenwir ar ffurf electronig;

Erthyglau: ystyr erthyglau yw erthyglau cymdeithasu'r Cwmni sydd mewn grym am y tro;

Erthyglau Enghreifftiol: ystyr erthyglau enghreifftiol yw'r erthyglau enghreifftiol ar gyfer cwmnïau preifat cyfyngedig drwy warant sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008 (*SI 2008/3229*) fel y'u diwygiwyd cyn dyddiad mabwysiadu'r Erthyglau hyn ac mae cyfeiriad at "**Erthygl Enghreifftiol**" yn cyfeirio at yr erthygl honno o'r Erthyglau Enghreifftiol;

ffurf electronig: mae iddo'r ystyr a roddir yn adran 1168 o'r Ddeddf;

Gwrthdaro: mae'n golygu sefyllfa lle y mae gan neu y gall fod gan gyfarwyddwr fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro neu a allai wrthdaro â buddiannau'r Cwmni;

hysbysiad drwy ddirprwy: mae iddo'r ystyr a roddir yn Erthygl Enghreifftiol 31;

is-gwmni: mae iddo'r ystyr a roddir yn erthygl 1159 o'r Ddeddf;

methdaliad: mae'n cynnwys gweithrediadau achos ansolfedd mewn awdurdodaeth heblaw Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon sydd ag effaith debyg i fethdaliad;

penderfyniad arbennig: mae iddo'r ystyr a roddir yn erthygl 283 o'r Ddeddf;

penderfyniad cyffredin: mae iddo'r ystyr a roddir yn erthygl 282 o'r Ddeddf;

Penodwr: mae iddo'r ystyr a roddir yn erthygl 15(1);

ysgrifenedig: mae'n golygu cynrychioli neu atgynhyrchu ceisiadau, symbolau neu wybodaeth arall mewn ffurf weladwy trwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau, boed wedi'i anfon neu ei gyflenwi mewn ffurf electronig neu fel arall.

ysgrifennydd: mae'n golygu ysgrifennydd y Cwmni ac unrhyw unigolyn arall a benodir i gyflawni dyletswyddau ysgrifennydd y Cwmni, gan gynnwys cyd-ysgrifennydd, ysgrifennydd cynorthwyol neu ddirprwy ysgrifennydd;

- 1.2 Oni nodir fel arall yn benodol yn yr Erthyglau hyn, mae gan eiriau ac ymadroddion sydd ag ystyron arbennig yn yr Erthyglau Enghreifftiol yr un ystyr ag yn yr Erthyglau hyn, ac yn unol â hynny ac oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd gan

eiriau ac ymadroddion sydd ag ystyron arbennig yn y Ddeddf yr un ystyron yn yr Erthyglau hyn.

- 1.3 Defnyddir penawdau yn yr Erthyglau hyn er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar gystrawen neu ddehongliad o'r Erthyglau hyn.
- 1.4 Mae cyfeiriad yn yr Erthyglau hyn at **erthygl** yn gyfeiriad at erthygl berthnasol yn Erthyglau hyn oni bai y darperir yn benodol fel arall.
- 1.5 Oni bai y darperir yn benodol fel arall, bydd cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o bryd i'w gilydd o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno.
- 1.6 Bydd unrhyw air sy'n dilyn y termau **gan gynnwys, sy'n cynnwys, yn arbennig, er enghraifft** neu unrhyw ymadrodd tebyg yn cael ei ddehongli fel gair esboniadol ac ni fydd yn cyfyngu ar ystyr y geiriau sy'n rhagflaenu'r termau hynny.
- 1.7 Bydd yr Erthyglau Enghreifftiol yn gymwys i'r Cwmni, ac eithrio cyn belled ag y cawsant eu haddasu neu eu heithrio gan yr Erthyglau hyn.
- 1.8 Ni fydd yr Erthyglau Enghreifftiol canlynol yn gymwys i'r Cwmni:
 - (a) 1 (Termau diffiniedig);
 - (b) 2 (Atebolrwydd Aelodau);
 - (c) 8 (Penderfyniadau unfrydol);
 - (d) 9(1) a (3) (Galw cyfarfod cyfarwyddwyr);
 - (e) 11(2) a (3) (Cworwm ar gyfer cyfarfod cyfarwyddwyr);
 - (f) 13 (Pleidlais bwrw);
 - (g) 14 (1), (2), (3) a (4) (Gwrthdaro buddiannau);
 - (h) 17(2) (Dulliau penodi cyfarwyddwyr);
 - (i) 21 (Ceisiadau ar gyfer aelodaeth);
 - (j) 22.1 (Terfynu aelodaeth);
 - (k) 30(2) (Pleidleisiau pól);
 - (l) 31(1)(d) (Cynnwys hysbysiadau drwy ddirprwy);
 - (m) 35 (Seiliau cwmni);
 - (n) 38 (Indemniad);
 - (o) 39 (Yswiriant).

- 1.9 Caiff Erthygl Enghreifftiol 3 (awdurdod cyffredinol Cyfarwyddwyr) ei diwygio trwy fewnosod y geiriau "yn unol â'i amcanion" ar ôl y geiriau "rheoli busnes y Cwmni".
- 1.10 Caiff Erthygl Enghreifftiol 7 (Cyfarwyddwyr i wneud penderfyniadau ar y cyd) ei diwygio trwy:
- (a) mewnosod y geiriau "am y tro" ar ddiwedd Erthygl Enghreifftiol 7(2)(a); a
 - (b) mewnosod yn Erthygl Enghreifftiol 7(2) y geiriau "(tra bydd yn parhau'n unig gyfarwyddwr)" ar ôl y geiriau "a gall y cyfarwyddwr".
- 1.11 Caiff Erthygl Enghreifftiol 20 ei diwygio trwy fewnosod y geiriau "(gan gynnwys dirprwy gyfarwyddwyr)" cyn y geiriau "a godir yn briodol".

2. AMCAN

Yr amcan y sefydlwyd y Cwmni i'w gyflawni yw hyrwyddo ac ymgymryd â rheoleiddio codi arian gan elusennau a sefydliadau dielw.

3. PWERAU

Yn unol â'r amcan a nodir yn erthygl 2, mae gan y Cwmni y pŵer i:

- (a) prynu, prydlesu neu gaffael fel arall a delio ag unrhyw eiddo real neu bersonol ac unrhyw hawliau neu freintiau o unrhyw fath dros neu mewn perthynas ag unrhyw eiddo real neu bersonol a gwella, rheoli, datblygu, adeiladu, atgyweirio, gwerthu, prydlesu, morgeisio, arwystlo, ildio neu waredu neu ddelio fel arall â'r cyfan neu unrhyw ran o eiddo o'r fath ac unrhyw a holl hawliau'r Cwmni;
- (b) benthycu a chodi arian yn y modd y gwêl y cyfarwyddwyr yn dda a sicrhau ad-dalu unrhyw arian a fenthycir, a godir neu sy'n ddyledus trwy forgais, arwystl, lien neu warrant arall ar eiddo ac asedau'r Cwmni;
- (c) buddsoddi a delio â chronfeydd y Cwmni nad oes eu hangen ar unwaith ar gyfer ei weithrediadau mewn neu ar fuddsoddiadau, gwarantau neu eiddo o'r fath a all gael ei farnu'n briodol;
- (d) tanysgrifio i, cymryd, prynu neu fel arall caffael, dal, gwerthu, delio a gwaredu â, rhoi ac yswirio cyfrannau, stociau, debenturon, stociau debentur, bondiau, rhwymedigaethau neu warrantau a gyhoeddir neu a warentir gan unrhyw lywodraeth neu awdurdod mewn unrhyw ran o'r byd;
- (e) rhoi benthyc neu fenthycu arian neu roi credyd ar delerau sydd i'w gweld yn fuddiol a gyda neu heb warrant i gwsmeriaid ac eraill, llofnodi gwarantau, contractau o indemniad a mechnïaeth o bob math i gael arian ar adnau neu fenthyciad ar y telerau y gall y Cwmni eu cymeradwyo a sicrhau neu warrantu talu unrhyw symiau o arian neu gyflawni unrhyw rwymedigaeth gan

unrhyw gwmni, busnes neu unigolyn gan gynnwys unrhyw gwmni daliannol neu is-gwmni;

- (f) lobiö, hysbysebu, cyhoeddi, addysgu, archwilio, ymchwilio ac arolygu mewn perthynas â holl faterion y gyfraith, rheoleiddio, economeg, cyfrifeg, llywodraethu, gwleidyddiaeth a/neu faterion eraill a chynnal cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithdrefnau eraill a chydweithredu â neu gynorthwyo unrhyw gorff neu sefydliad arall ym mhob achos mewn modd neu drwy'r fath ddulliau a allai, ym marn y cyfarwyddwyr, effeithio ar neu hyrwyddo'r prif amcan mewn unrhyw ffordd;
- (g) talu'r holl gostau neu unrhyw gostau a godir mewn perthyn â hyrwyddo, ffurfio a chorffori'r Cwmni a llunio contract ag unrhyw unigolyn, busnes neu gwmni i dalu'r un costau;
- (h) llunio contractau i ddarparu gwasanaethau i gyrff eraill neu ar eu rhan;
- (i) darparu a chynorthwyo i ddarparu arian, deunyddiau neu gymorth arall;
- (j) agor a gweithredu cyfrifon banc a chyfleusterau eraill ar gyfer bancio a thynnu, derbyn, cymeradwyo, rhoi neu gyflawni nodiadau addewidiol, biliau cyfnewid, sieciau ac offerynnau eraill;
- (k) corffori is-gwmnïau i ymgymryd ag unrhyw fasnach; a
- (l) gwneud yr holl bethau cyfreithlon eraill sy'n atodol neu'n ffatriol i geisio cyflawni neu gyflawni unrhyw amcan a nodir yn erthygl 2.

4. INCWM

4.1 Defnyddir incwm ac eiddo'r Cwmni o ble bynnag y daw i hyrwyddo amcanion y Cwmni yn unig.

4.2 Ni chaiff unrhyw ddsbarthiad ei dalu ac ni chaiff unrhyw gyfalaf ei ddychwelyd fel arall i'r Aelodau mewn arian parod neu fel arall. Ni fydd unrhyw beth yn yr Erthyglau hyn yn atal unrhyw daliad mewn ewyllys da gan y Cwmni o:

- (a) tâl rhesymol a phriodol i unrhyw Aelod, swyddog neu was y Cwmni ar gyfer unrhyw wasanaethau a roddwyd i'r Cwmni;
- (b) unrhyw log ar arian a fenthycwyd gan unrhyw Aelod neu unrhyw gyfarwyddwr ar gyfradd resymol a phriodol;
- (c) rhent rhesymol a phriodol ar gyfer eiddo a brydlesir neu a osodir gan unrhyw Aelod neu gyfarwyddwr; neu
- (d) treuliau parod rhesymol a godwyd yn briodol gan unrhyw gyfarwyddwr.

5. DIRWYN I BEN

Pan gaiff y Cwmni ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, ar ôl darparu ar gyfer ei holl ddyledion a rhwymedigaethau, ni fydd unrhyw asedau neu eiddo sy'n parhau i fod ar

gael i'w dosbarthu neu eu talu, yn cael eu talu neu eu dosbarthu i'r Aelodau (ac eithrio i Aelod sy'n gymwys o dan yr Erthygl hon), ond cânt eu trosglwyddo i gorff arall (elusenol neu fel arall) sydd ag amcanion tebyg i amcanion y Cwmni. Bydd corff o'r fath yn cael ei bennu gan benderfyniad yr Aelodau ar neu cyn yr amser dirwyn i ben neu ddiddymu ac, yn amodol ar unrhyw benderfyniad o'r fath gan yr Aelodau, gall gael ei wneud trwy benderfyniad y cyfarwyddwyr ar neu cyn yr amser dirwyn i ben neu ddiddymu.

6. GWARANT

Mae atebolrwydd pob Aelod wedi'i gyfyngu i £1, sef y swm y mae pob Aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r Cwmni os caiff ei ddirwyn i ben tra ei fod yn Aelod neu cyn pen blwyddyn ar ôl iddo beidio â bod yn Aelod, ar gyfer

- (a) talu dyledion a rhwymedigaethau'r Cwmni a gontractiwyd cyn iddo beidio â bod yn Aelod,
- (b) talu costau, taliadau a threuliau dirwyn i ben, a
- (c) addasu hawliau'r cyfranwyr ymysg ei gilydd.

CYFARWYDDWYR

7. PENDERFYNIADAU UNFRYDOL

- 7.1 Gwneir penderfyniad y cyfarwyddwyr yn unol â'r erthygl hon pan fydd pob Cyfarwyddwr Cymwys yn dangos i'w gilydd trwy unrhyw ddull eu bod rhannu barn gytûn ar fater.
- 7.2 Gall penderfyniad o'r fath fod ar ffurf penderfyniad ysgrifenedig, lle mae pob Cyfarwyddwr Cymwys wedi llofnodi un neu ragor o gopiâu ohono, neu y mae pob Cyfarwyddwr Cymwys fel arall wedi dangos eu bod yn cytuno yn ysgrifenedig.
- 7.3 Ni ellir gwneud penderfyniad yn unol â'r erthygl hon pe na fyddai'r Cyfarwyddwyr Cymwys wedi ffurfio cworwm mewn cyfarfod o'r fath.

8. GALW CYFARFOD O'R CYFARWYDDWYR

- 8.1 Gall unrhyw gyfarwyddwr alw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr trwy roi ddim llai na 7 Diwrnod Busnes o rybudd o'r cyfarfod (neu lai o rybudd fel y cytunir gan bob un o'r cyfarwyddwyr) i'r cyfarwyddwyr neu trwy awdurdodi'r ysgrifennydd (os oes) i roi rhybudd o'r fath.
- 8.2 Caiff rhybudd o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr ei roi i bob cyfarwyddwr yn ysgrifenedig.

- 8.3 Ni fydd hawl gan gyfarwyddwr sy'n absennol o'r DU ac sydd heb unrhyw gyfeiriad cofrestredig yn y DU i gael rhybudd o gyfarfod o'r cyfarwyddwyr.

9. CWORWM AR GYFER CYFARFOD O'R CYFARWYDDWYR

- 9.1 Bydd y cworwm ar gyfer trafod busnes yng nghyfarfod o'r cyfarwyddwyr yn bedwar Cyfarwyddwr Cymwys ar yr amod os oes un Cyfarwyddwr Cymwys yn unig bydd yn ffurfio'r cworwm ar gyfer trafod y busnes yn y cyfarfod dan sylw.

- 9.2 At ddibenion unrhyw gyfarfod (neu ran o gyfarfod) a gynhelir yn unol ag *erthygl 11* i awdurdodi Gwrthdaro, os oes un Cyfarwyddwr Cymwys yn ei swydd yn unig heblaw'r Cyfarwydd(wyr) â Budd arall(eraill), bydd y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r fath (neu ran o gyfarfod) yn un Cyfarwyddwr Cymwys.

10. PLEIDLAIS BWRW

- 10.1 Os yw nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig yng nghyfarfod o'r cyfarwyddwyr yn gyfartal mae pleidlais bwrw gan y cadeirydd neu'r cyfarwyddwr arall sy'n cadeirio'r cyfarfod.

- 10.2 Ni fydd erthygl 10.1 yn gymwys mewn perthynas â chyfarfod arbennig (neu ran o gyfarfod) os, yn unol â'r Erthyglau, nad yw'r cadeirydd neu'r cyfarwyddwr arall yn Gyfarwyddwr Cymwys at ddibenion y cyfarfod hwnnw (neu ran o gyfarfod).

11. GWRTHDARO BUDDIANNAU CYFARWYDDWYR

- 11.1 Gall cyfarwyddwyr, yn unol â'r gofynion a nodir yn yr erthygl hon, awdurdod i unrhyw Wrthdaro a gynigir iddynt gan unrhyw gyfarwyddwr a fyddai, pe na bai'n cael ei awdurdodi, yn golygu bod cyfarwyddwr (**Cyfarwyddwr â Budd**) yn torri ei ddyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau o dan adran 175 o'r Ddeddf.

- 11.2 Bydd unrhyw awdurdodiad o dan yr *erthygl 11* hon yn weithredol dim ond:

- (a) i'r graddau a ganiateir gan y Ddeddf, os bydd y mater dan sylw wedi cael ei gynnig gan unrhyw gyfarwyddwr i'w ystyried yn yr un ffordd ag y gall unrhyw fater arall gael ei gynnig i'r cyfarwyddwyr o dan ddarpariaethau'r Erthyglau hyn neu mewn unrhyw ffordd arall fel y pennir gan y cyfarwyddwyr;
- (b) os yw unrhyw ofyniad ynghylch y cworwm i ystyried y mater perthnasol wedi'i gyflawni heb gyfrif y Cyfarwyddwr â Budd; a
- (c) os cytunwyd ar y mater heb i'r Cyfarwyddwr â Budd bleidleisio neu byddai wedi cael ei gytuno pe na fyddai pleidlais y Cyfarwyddwr â Budd wedi cael ei gyfrif.

- 11.3 Gall unrhyw awdurdodiad o Wrthdaro o dan yr *erthygl 11* hon (naill ai pan roddir yr awdurdodiad neu wedi hynny):
- (a) ymestyn i unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl y mae disgwyl rhesymol iddo godi o'r mater neu'r sefyllfa a awdurdodwyd felly;
 - (b) darparu bod y Cyfarwyddwr â Budd yn cael ei eithrio o dderbyn dogfennau a gwybodaeth a chymryd rhan yn y trafodaethau (boed hynny yng nghyfarfodydd y cyfarwyddwyr neu fel arall) sy'n ymwneud â'r Gwrthdaro;
 - (c) darparu y bydd neu ni fydd y Cyfarwyddwr â Budd yn Gyfarwyddwr Cymwys mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wna'r cyfarwyddwyr yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r Gwrthdaro;
 - (d) gosod ar y Cyfarwyddwr â Budd delerau eraill at ddibenion delio â'r Gwrthdaro fel y gwêl y cyfarwyddwyr yn dda;
 - (e) darparu, pan fydd y Cyfarwyddwr â Budd yn cael, neu wedi cael (trwy ei ymwneud â'r Gwrthdaro a heblaw trwy ei rinwedd fel cyfarwyddwr y Cwmni) gwybodaeth sy'n gyfrinachol i drydydd parti, ni fydd yn ofynnol iddo ddatgelu'r wybodaeth hon i'r Cwmni, neu ei defnyddio mewn perthynas â busnes y Cwmni pe byddai gwneud hynny yn torri'r cyfrinachedd hwnnw; a
 - (f) caniatáu i'r Cyfarwyddwr â Budd fod yn absennol o drafodaethau am y materion sy'n ymwneud â'r Gwrthdaro mewn unrhyw gyfarfod o'r cyfarwyddwyr a chael ei esgusodi wrth adolygu'r papurau a baratowyd gan, neu ar gyfer, y cyfarwyddwyr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion o'r fath.
- 11.4 Os yw'r cyfarwyddwyr yn awdurdodi Gwrthdaro, bydd rhaid i'r Cyfarwyddwr â Budd ymddwyn yn unol ag unrhyw delerau ac amodau a osodwyd gan y cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Gwrthdaro.
- 11.5 Gall y cyfarwyddwyr ddirymu neu amrywio awdurdodiad o'r fath unrhyw bryd, ond ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw beth a wnaed gan y Cyfarwyddwr â Budd cyn dirymiad neu amrywiad o'r fath yn unol â thelerau awdurdodiad o'r fath.
- 11.6 Nid yw'n ofynnol i gyfarwyddwr, oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr (neu oherwydd y berthynas ymddiriedol a sefydlwyd trwy iddo fod yn gyfarwyddwr), roi cyfrif i'r Cwmni am unrhyw dâl, elw neu fudd arall a gaiff gan neu mewn cysylltiad â pherthynas sy'n cynnwys Gwrthdaro a awdurdodwyd gan y cyfarwyddwyr yn unol â'r Erthyglau hyn neu gan y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol (yn amodol ym mhob achos ar unrhyw delerau, cyfyngiadau neu amodau sy'n effeithio ar yr awdurdodiad hwnnw) ac ni fydd unrhyw gontract yn debygol o gael ei osgoi ar sail o'r fath.
- 11.7 Yn amodol ar adrannau 177(5) a 177(6) ac adrannau 182(5) a 182(6) o'r Ddeddf, ac ar yr amod ei fod wedi datgan natur a graddfa ei fudd yn unol â gofynion y Ddeddf, os

oes gan gyfarwyddwr fudd, boed hynny'n uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn trafodiad neu drefniant presennol neu arfaethedig gyda'r Cwmni:

- (a) gall fod yn barti i, neu gael budd fel arall mewn, unrhyw drafodiad neu drefniant â'r Cwmni neu y mae gan y Cwmni fudd (uniongyrchol neu anuniongyrchol) fel arall ynddo;
- (b) bydd yn Gyfarwyddwr Cymwys at ddibenion unrhyw benderfyniad arfaethedig y cyfarwyddwyr (neu bwyllgor o gyfarwyddwyr) mewn perthynas â trafodiad neu drefniant presennol neu arfaethedig o'r fath y mae ganddo fudd ynddo;
- (c) bydd hawl ganddo bleidleisio mewn cyfarfod o'r cyfarwyddwyr (neu bwyllgor o'r cyfarwyddwyr) neu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad unfrydol, mewn perthynas â thrafodiad neu drefniant presennol neu arfaethedig o'r fath y mae ganddo fudd ynddo;
- (d) gall weithredu ar ei ben ei hun neu ar ran ei gwmni mewn rhinwedd proffesiynol ar gyfer y Cwmni (heblaw fel archwiliwr) a bydd hawl ganddo neu ei gwmni gael tâl am wasanaethau proffesiynol fel pe na bai'n gyfarwyddwr;
- (e) gall fod yn gyfarwyddwr neu'n swyddog arall, neu gael ei gyflogi gan, neu fod yn barti i drafodiad neu drefniant â, neu gael budd fel arall mewn, unrhyw gorff corfforaethol y mae gan y Cwmni fudd (uniongyrchol neu anuniongyrchol) fel arall ynddo;
- (f) ni fydd, heblaw fel y gall gytuno arno fel arall, fod yn atebol i'r Cwmni am unrhyw fudd a ddaw iddo (neu unigolyn sy'n gysylltiedig ag ef (fel y diffinnir yn adran 252 o'r Ddeddf)) o unrhyw drafodiad neu drefniant o'r fath neu o unrhyw swydd neu gyflogaeth o'r fath neu o unrhyw fudd mewn unrhyw gorff corfforaethol o'r fath ac ni fydd unrhyw drafodiad neu drefniant o'r fath yn debygol o gael ei osgoi ar sail unrhyw fudd o'r fath ac ni fydd derbyn unrhyw dâl o'r fath neu fudd arall yn cael ei ystyried yn dor-ddyletswydd o dan adran 176 o'r Ddeddf.

12. COFNODION O BENDERFYNIADAU I'W CADW

Pan fydd penderfyniadau'r cyfarwyddwyr yn cael eu gwneud trwy ddulliau electronig, bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu cofnodi gan y cyfarwyddwyr mewn ffurf barhaol, er mwyn iddynt allu cael eu darllen gyda'r llygad noeth.

13. NIFER Y CYFARWYDDWYR

Oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin, ni fydd unrhyw uchafswm ar gyfer nifer y cyfarwyddwr (heblaw dirprwy gyfarwyddwyr eiledol).

14. **MARWOLAETH NEU FETHDALIAD CYFARWYDDWR SY'N UNIG AELOD**

Mewn unrhyw achos lle mae Aelod yn marw neu'n mynd yn fethdalwr ac nid oes unrhyw Aelodau na chyfarwyddwyr gan y Cwmni, mae hawl gan yr unigolyn (unigolion) a all hawlio'r Aelodaeth honno o dan *erthygl 21.4* yr hawl, trwy hysbysiad ysgrifenedig, i benodi person naturiol (gan gynnwys y penodwr ei hun) sy'n barod i weithredu ac y caniateir iddo wneud hynny, i fod yn gyfarwyddwr y Cwmni.

15. **PENODI A DISWYDDO DIRPRWY GYFARWYDDWYR**

15.1 Gall unrhyw gyfarwyddwr (heblaw dirprwy gyfarwyddwr) (**Penodwr**) benodi fel dirprwy unrhyw gyfarwyddwr arall, neu unrhyw unigolyn arall wedi'i gymeradwyo gan benderfyniad y cyfarwyddwyr i:

- (a) arfer pwerau'r cyfarwyddwr; a
- (b) ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr hwnnw,

mewn perthynas â gwneud penderfyniadau gan y cyfarwyddwyr, yn absenoldeb y Penodwr.

15.2 Rhaid i benodi neu ddiswyddo dirprwy gyfarwyddwr gael ei weithredu trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Cwmni wedi'i lofnodi gan y Penodwr, neu mewn unrhyw ddull arall a gymeradwyir gan y cyfarwyddwr.

15.3 Rhaid i'r hysbysiad:

- (a) enwi'r dirprwy arfaethedig; a
- (b) yn achos hysbysiad o benodi, cynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan y dirprwy arfaethedig sy'n datgan ei fod yn barod i weithredu fel dirprwy y cyfarwyddwr sy'n rhoi'r hysbysiad.

16. **HAWLIAU A CHYFRIFOLDEBAU DIRPRWY GYFARWYDDWYR**

16.1 Gall dirprwy gyfarwyddwr weithredu fel dirprwy gyfarwyddwr ar gyfer mwy nag un cyfarwyddwr ac mae ganddo'r un hawliau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y cyfarwyddwyr â'r Penodwr.

16.2 Oni bai y nodir yn benodol fel arall yn yr Erthyglau, mae dirprwy gyfarwyddwyr:

- (a) yn cael eu hystyried yn gyfarwyddwyr at bob pwrpas;
- (b) yn atebol am eu gweithredoedd a'u hesgoriadau eu hunain;
- (c) yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau â'u Penodwyr; a
- (d) heb eu hystyried yn asiantau eu Penodwyr neu ar ran eu Penodwyr

ac, yn arbennig (heb gyfyngiad), bydd hawl gan bob dirprwy gyfarwyddwr gael hysbysiad am bob cyfarfod o'r cyfarwyddwyr a holl gyfarfodydd pwyllgorau'r cyfarwyddwyr lle mae ei Benodwr yn Aelod.

- 16.3 Gall rhywun sy'n ddirprwy gyfarwyddwr ond nid yn gyfarwyddwr:
- (a) cael ei gyfrif fel rhywun sy'n cymryd rhan at ddibenion penderfynu a yw cworwm yn bresennol (ond dim ond os nad yw Penodwr yr unigolyn hwn yn cymryd rhan);
 - (b) gall gymryd rhan ym mhenderfyniad unfrydol y cyfarwyddwyr (ond dim ond os yw ei Benodwr yn Gyfarwyddwr Cymwys mewn perthynas â'r penderfyniad hwn, ond nid yw'n cymryd rhan); a
 - (c) ni chaiff ei gyfrif fel mwy nag un cyfarwyddwr at ddibenion *erthygl* 16.3.
- 16.4 Mae hawl gan gyfarwyddwr sydd hefyd yn ddirprwy gyfarwyddwr, yn absenoldeb ei Benodwr(wyr), i gael pleidlais ar wahân ar ran pob Penodwr, yn ychwanegol i'w bleidlais ei hun ar unrhyw benderfyniad y cyfarwyddwyr (ar yr amod bod Penodwr y mae'n arfer pleidlais ar wahân ar ei gyfer yn Gyfarwyddwr Cymwys mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw), ond ni fydd yn cyfrif fel mwy nag un cyfarwyddwr at ddibenion penderfynu a yw cworwm yn bresennol.
- 16.5 Gellir talu treuliau i ddirprwy gyfarwyddwr a gall y Cwmni ei indemnio i'r un graddau a phe bai'n gyfarwyddwr ond ni fydd hawl ganddo gael unrhyw dâl gan y Cwmni am wasanaethu fel dirprwy gyfarwyddwr ac eithrio y rhan honno (os oes) o'r tâl sy'n daladwy fel arall i Benodwr y dirprwy fel y gall y Penodwr ei gyflwyno trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Cwmni o bryd i'w gilydd.

17. TERFYNU SWYDD DIRPRWY GYFARWYDDWR

Bydd penodiad dirprwy gyfarwyddwr fel dirprwy (mewn perthynas â Phenodwr arbennig) yn dod i ben:

- (a) pan fydd Penodwr y dirprwy yn diddymu'r penodiad trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Cwmni sy'n nodi pryd y bydd yn dod i ben;
- (b) pan fyddai unrhyw ddigwyddiad, mewn perthynas â'r dirprwy, yn codi, a fyddai os yw'n codi mewn perthynas â Phenodwr y dirprwy, yn arwain at derfynu penodiad y Penodwr fel cyfarwyddwr;
- (c) ar farwolaeth y Penodwr y dirprwy; neu
- (d) pan fydd Penodwr y dirprwy gyfarwyddwr yn peidio â bod yn gyfarwyddwr am ba bynnag rheswm.

18. YSGRIFENNYDD

Gall y cyfarwyddwyr benodi unrhyw un sy'n barod i weithredu fel ysgrifennydd am dymor penodol, gyda thâl penodol ac o dan yr amodau sy'n briodol yn eu barn nhw ac o bryd i'w gilydd diswyddo unigolyn o'r fath ac, os yw'r cyfarwyddwyr yn penderfynu felly, penodi cyfarwyddwr yn ei le, ym mhob achos trwy benderfyniad y cyfarwyddwyr.

19. NEWID ENW CWMNI

Gellir newid enw'r Cwmni trwy:

- (a) penderfyniad y cyfarwyddwyr; neu.
- (b) penderfyniad arbennig yr Aelodau,

neu fel arall yn unol â'r Ddeddf.

AELODAU: BOD YN AELOD A PHEIDIO Â BOD YN AELOD

20. AELODAETH

20.1 Bydd y Cwmni yn derbyn i'w Aelodaeth unigolyn neu sefydliad sydd:

- (a) yn gwneud cais i'r Cwmni gan ddefnyddio'r broses ymgeisio a gymeradwywyd gan y cyfarwyddwyr; a
- (b) wedi'i gymeradwyo gan y cyfarwyddwyr.

20.2 Gall y cyfarwyddwyr yn ôl eu disgrisiwn absoliwt wrthod derbyn unrhyw gais am Aelodaeth ac nid oes rhaid iddynt roi rhesymau dros wneud hynny.

20.3 Gall y cyfarwyddwyr osod meini prawf ar gyfer Aelodaeth o'r Cwmni ond ni fydd rhaid iddynt dderbyn unigolion sy'n bodloni'r meini prawf hynny fel Aelodau.

21. TROSLWYDDO AELODAETH

21.1 Gall Aelod drosglwyddo ei aelodaeth i unigolyn arall ar yr amod bod yr unigolyn hwnnw yn bodloni'r meini prawf Aelodaeth a nodir yn yr Erthyglau hyn neu mewn man arall trwy lofnodi offeryn trosglwyddo mewn unrhyw ffurf arferol neu mewn unrhyw ffurf a gymeradwyir gan y Cyfarwyddwyr a chyflwyno dogfen o'r fath yn swyddfa gofrestredig y Cwmni.

21.2 Ar ôl cyflwyno'r offeryn trosglwyddo yn y swyddfa gofrestredig, bydd yr ysgrifenedig, cyn gynted ag y boi'n rhesymol ymarferol, yn cofrestru'r trosglwyddai yng Nghofrestr Aelodau'r Cwmni ac yn rhoi gwybod i'r trosglwyddai ar ba ddyddiad y daw'n Aelod.

- 21.3 Ni chodir unrhyw ffi am gofrestru'r trosglwyddai yn y Gofrestr Aelodau.
- 21.4 Pan fydd Aelod yn marw neu'n mynd yn fethdalwr (os yw'n unigolyn) neu'n mynd i law'r derbynnydd, neu dderbynnydd gweinyddol, gweinyddiaeth, diddymiad neu drefniant arall ar gyfer dirwyn y cwmni i ben (os yw'n gwmni), bydd yr Aelodaeth yn trosglwyddo'n awtomatig i'r cynrychiolwyr personol, ymddiriedolwr mewn methdaliad, goruchwyliwr, derbynnydd, gweinyddwr neu dderbynnydd gweinyddol (fel y bo'n briodol) a fydd cyn pen 14 diwrnod yn trosglwyddo hawliau Aelodaeth o'r fath yn unol â'r drefn a nodir yn *erthygl 21.1*.
- 21.5 Gall Aelod dynnu ei Aelodaeth o'r Cwmni yn ôl trwy roi hysbysiad o 7 diwrnod i'r Cwmni yn ysgrifenedig a bydd unrhyw unigolyn sy'n peidio â bod yn Aelod yn cael ei ddileu o'r Gofrestr Aelodau.

22. DIARDEL AELOD

- 22.1 Gall y cyfarwyddwyr ddod ag Aelodaeth unrhyw Aelod i ben heb ei gydsyniad trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Aelod os, ym marn resymol y cyfarwyddwyr, mae'r Aelod:
- (a) yn euog o ymddygiad sydd wedi cael neu sy'n debygol o gael effaith andwyol ddifrifol ar y Cwmni neu sy'n dwyn anfri ar y Cwmni neu unrhyw un neu'r holl Aelodau a chyfarwyddwyr; neu
 - (b) sydd wedi gweithredu neu sydd wedi bygwth gweithredu mewn ffordd sy'n groes i fuddiannau'r Cwmni cyfan; neu
 - (c) sydd wedi methu â dilyn telerau'r Erthyglau hyn.

Yn dilyn terfynu aelodaeth, bydd yr Aelod yn cael ei ddileu o'r Gofrestr Aelodau.

- 22.2 Rhaid i'r hysbysiad i'r Aelod roi cyfle i'r Aelod gael ei glywed yn ysgrifenedig neu yn bersonol ynghylch pam na ddylid terfynu ei aelodaeth. Rhaid i'r cyfarwyddwyr ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr Aelod a rhoi gwybod i'r Aelod am eu penderfyniad yn dilyn ystyriaeth o'r fath. Ni fydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y cyfarwyddwyr i derfynu Aelodaeth Aelod.
- 22.3 Ni fydd hawl gan Aelod y mae ei Aelodaeth yn cael ei therfynu o dan yr Erthygl hon i gael ad-daliad o unrhyw danysgrifiad neu ffi Aelodaeth (os oes) a bydd yn atebol i dalu i'r Cwmni unrhyw danysgrifiad neu swm arall sy'n ddyledus ganddo.

AELODAU YN GWNEUD PENDERFYNIADAU

23. PLEIDLEISIAU AELODAU

Yn amodol ar y Ddeddf, mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol:

- (a) bydd un bleidlais trwy godi dwylo gan bob Aelod sy'n bresennol mewn person (neu drwy ddirprwy); a
- (b) bydd un bleidlais trwy bôl gan bob Aelod sy'n bresennol mewn person (neu drwy ddirprwy).

24. PLEIDLEISIO PÔL

- 24.1 Gall pôl gael ei alw mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol gan unrhyw berson cymwys (fel y'i diffinnir yn adran 318(3) o'r Ddeddf) sy'n bresennol ac sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod.
- 24.2 Caiff Erthygl Enghreifftiol 30(3) ei diwygio trwy fewnosod y geiriau "Ni fydd galwad a dynnir yn ôl yn annilysu canlyniad pleidlais trwy godi dwylo a ddatgenir cyn i'r galwad gael ei wneud" fel paragraff newydd ar ddiwedd yr erthygl honno.

25. DIRPRWYON

- 25.1 Caiff Erthygl Enghreifftiol 31(1)(d) ei dileu a'i disodli gyda'r geiriau "a gyflwynir i'r cwmni yn unol â'r Erthyglau ddim llai na 48 awr cyn yr amser a drefnwyd ar gyfer cynnal y cyfarfod neu'r cyfarfod a ohiriwyd lle mae'r hawl i bleidleisio i'w harfer ac yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad o'r cyfarfod cyffredinol (neu'r cyfarfod a ohiriwyd) y mae'n cyfeirio ato".
- 25.2 Caiff Erthygl Enghreifftiol 31(1) ei diwygio trwy fewnosod y geiriau "a bydd hysbysiad dirprwy sydd heb ei gyflwyno felly yn annilys, oni bai bod y cyfarwyddwyr, yn ôl eu disgrisiwn, yn derbyn yr hysbysiad ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod" fel paragraff newydd ar ddiwedd yr erthygl honno.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

26. DULLIAU CYFATHREBU I'W DEFNYDDIO

- 26.1 Bernir bod unrhyw hysbysiad, dogfen neu wybodaeth arall wedi cael ei gyflwyno ar neu sawl y bwriedir iddo ei dderbyn:
 - (a) os yw wedi'i gyfeirio'n briodol a'i anfon drwy bost dosbarth cyntaf rhagdaledig y Deyrnas Unedig i gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, 48 awr ar ôl iddo gael ei bostio [(neu [pump] Diwrnod Busnes ar ôl ei bostio naill ai i gyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig i gyfeiriad o fewn y Deyrnas Unedig, os (ym mhob achos) yw wedi'i anfon gan negesydd dros nos rhyngwladol dibynadwy wedi'i gyfeirio at y sawl y bwriedir iddo ei dderbyn, ar yr amod bod dosbarthu o fewn o leiaf pum Diwrnod Busnes wedi'i warantu adeg ei anfon ac mae'r parti sy'n ei anfon yn derbyn cadarnhad postio gan y darparwr gwasanaeth negesydd);

- (b) os yw wedi'i gyfeirio'n briodol a'i ddsbarthu â llaw, pan gafodd ei roi neu ei adael yn y cyfeiriad priodol;
- (c) os yw wedi'i gyfeirio'n briodol a'i anfon neu ei gyflenwi trwy ddulliau electronig, un awr ar ôl i'r ddogfen neu'r wybodaeth gael ei hanfon neu ei chyflenwi; ac
- (d) os cafodd ei anfon neu ei gyflenwi trwy gyfrwng gwefan, pan fydd y deunyddiau ar gael yn gyntaf ar y wefan neu (os yn ddiweddarach) pan fydd y derbynnydd yn derbyn (neu y bernir ei fod wedi derbyn) hysbysiad o'r ffaith bod y deunyddiau ar gael ar y wefan;

At ddibenion yr erthygl hon, ni chyfrifir unrhyw ran o'r diwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes.

- 26.2 Wrth brofi bod unrhyw hysbysiad, dogfen neu wybodaeth arall wedi cael ei gyfeirio'n briodol, bydd yn ddigon i ddangos bod yr hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth arall wedi'i gyfeirio at gyfeiriad a ganiateir at y diben gan y Ddeddf.

27. RHEOLAU

Gall y cyfarwyddwyr sefydlu rheolau sy'n rheoli materion yn ymwneud â gweinyddiaeth y Cwmni sy'n ofynnol o bryd i'w gilydd ar gyfer gweithrediad effeithiol y Cwmni (er enghraifft, y darpariaethau yn ymwneud â dosbarthiadau o Aelodau, ffioedd a thanysgrifiadau Aelodaeth a'r meini prawf derbyn ar gyfer Aelodau). Os oes gwrthdaro rhwng telerau'r Erthyglau hyn ac unrhyw reolau a sefydlir o dan yr Erthygl hon, bydd telerau'r Erthyglau hyn yn drech.

28. INDEMNIAID AC YSWIRIANT

- 28.1 Yn amodol ar *erthygl* 28.2, ond heb fod yn niweidiol i unrhyw indemniad y mae swyddog perthnasol â hawl i'w gael fel arall:

- (a) bydd pob swyddog perthnasol wedi'i indemnio o asedau'r Cwmni yn erbyn yr holl gostau, taliadau, colledion, treuliau a rhwymedigaethau a gafodd fel swyddog perthnasol;
 - (i) wrth weithredu neu gyflawni'n wirioneddol neu'n honedig ei ddyletswyddau, neu mewn perthynas â nhw;

gan gynnwys unrhyw atebolrwydd sy'n dod i'w ran wrth amddiffyn unrhyw achos sifil neu droseddol, lle mae'r dyfarniad yn cael ei roi o'i blaid neu lle mae'n ei gael yn ddieuog neu lle mae'r achos fel arall yn cael ei waredu heb unrhyw ddyfarniad neu gyfaddefiad o unrhyw dor-ddyletswydd sylweddol ar ei ran neu mewn perthynas ag unrhyw gais lle mae'r llys yn rhoi iddo, yn ei rinwedd fel swyddog perthnasol, ryddhad rhag atebolrwydd ar gyfer esgeulustod, diffyg talu, tor-ddyletswydd neu dor-ymddiriedaeth mewn perthynas â busnes y Cwmni (neu unrhyw gwmni cysylltiedig); a

- (b) gall y Cwmni roi i unrhyw swyddog perthnasol gronfeydd i dalu'r costau a gafwyd neu y bydd yn eu cael mewn perthynas ag unrhyw achos neu gais y cyfeirir ato yn *erthygl 2 8.1(a)* ac fel arall gall weithredu i alluogi unrhyw swyddog perthnasol o'r fath i osgoi cael gwariant o'r fath.

- 28.2 Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw indemniad i'r graddau y byddai indemniad o'r fath wedi'i wahardd neu ei wneud yn annilys gan unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf neu gan unrhyw ddarpariaeth arall o'r gyfraith ac os yw unrhyw indemniad o'r fath wedi'i gyfyngu yn unol â hynny.

- 28.3 Gall y cyfarwyddwyr benderfynu prynu a chynnal yswiriant, ar draul y Cwmni, ar gyfer budd unrhyw swyddog perthnasol mewn perthynas ag unrhyw golled berthnasol.

- 28.4 Yn yr erthygl hon:
 - (a) mae cwmnïau yn gysylltiedig os yw un yn is-gwmni o'r llall neu mae'r ddau yn is-gwmnïau o'r un corff corfforaethol; a
 - (b) ystyr **colled berthnasol** yw unrhyw golled neu atebolrwydd y mae swyddog perthnasol wedi'i gael neu y gallai ei gael mewn perthynas â dyletswyddau'r swyddog perthnasol hwnnw neu bwerau mewn perthynas â'r Cwmni, unrhyw gwmni cysylltiedig neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfrannau gweithwyr y Cwmni neu gwmni cysylltiedig; a
 - (c) ystyr **swyddog perthnasol** yw unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog arall neu gyn gyfarwyddwr neu swyddog arall y Cwmni ond ac eithrio ym mhob achos unrhyw unigolyn y mae'r Cwmni yn ei gyflogi (neu gwmni cysylltiedig) fel archwiliwr (boed a yw'n gyfarwyddwr neu swyddog arall hefyd), i'r graddau y mae'n gweithredu yn ei rinwedd fel archwiliwr).